CYNGOR CYMUNED BRYNGWRAN
COMMUNITY COUNCIL

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER
9 Rhagfyr 2015 AM 7.00 O'R GLOCH YN NEUADD YR YSGOL

YN BRESENNOL
Cyng I Roberts, R G Parry, S Parry, D Michael, E Huws, N Highley, I Rowlands, C Ll Thomas, K Humphreys

YMDDIHEURIADAU
Cyng D Rees (Cyngor Sir), N Roberts (Cyngor Sir)

Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng I Roberts

DATGAN DIDDORDEB - Cyng C Ll Thomas - cais cynllunio 16C157F/VAR

DERBYN COFNODION Y CYFARFOD 14 Hydref 2015
Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod 14 Hydref 2015, Cyng R G Parry yn cynnig a Cyng S Parry yn eilio.

MATERION YN CODI O'R COFNODION
Ganmlwyddiant y Rhyfel Mawr - Mae'r Clerc yn disgwyl prisiau ychwanegol am y gwaith ar y gofeb.
Cysgodfan Bws (yswiriant) - Mae'r clerc wedi derbyn y taliad
Twnnel Helyg - Mae y clerc yn disgwyl clywed gan Dee Walker.
Cyfrif y Maes Chwarae - Mae y pwyllgor wedi penderfynnu trosglwyddo £640.00 i cyfrif y Cyngor
Williams Homes Bala - Bydd y Clerc yn cysylltu a'r cwmni unwaith eto
Arwydd Bryngwran - mae'r gwaith wedi cael ei wneud.
Mynwent Llanbeulan - Cynigodd Cyng I Rowlands cael pris gan J a G Hughes, Ty Mawr am y gwaith sydd angen ei wneud.
Lon Salem - Mae'r Clerc yn disgwyl y cynllun gan yr Adran Priffyrdd.
Ceisiadau ariannol Groundworks a Watkin Jones - mewn llaw

ADRODDIAD y CADEIRYDD
Mae y Cadeirydd wedi trefnu gyda'r Eglwys i adael y golau ymlaen unwaith eto dros cyfnod y Nadolig a wedi cynnig rhodd o £50. Cyn cynnig rhodd Nadolig i Clwb y Pensiynwyr penderfyniwyd gofyn i'r clwb faint o aelodau sydd ganddynt, pa mor aml 'rydym yn cyfarfod yn yr ysgol, faint o arian sydd gan y clwb a syt mae y clwb yn hysbysebu cyfarfodydd y clwb. Bydd y Clerc yn cysylltu a cynrychiolydd y Clwb. Dywedodd y Cadeirydd bod llawer o gwastraff tu allan i 19 Bro Mynydd a bydd yn cysylltu a'r Cyngor Sir. Cynigodd y Cadeirydd diolchiadau i pawb am eu cefnogaeth, ac i Cyng Eirian Huws am gwneud y buffet ar Sul y Cofio. Hefyd cynigodd Cyng R G Parry diolchiadau i'r Cadeirydd a'r Clerc.

LLOFNOD (Cadeirydd) 13 Ionawr 2016

GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON
Cynllunio
16C157F/VAR Cais o dan Adran 73 i ddiwygio amodau 02 a 03 o ganiatad cynllunio rhif 16C157E (cais amlinellol ar gyfer codi 4 annedd) er mwyn ymestyn y caniatad amlinellol am dair blynedd pellach ac i ganiatau i ddatblygiad gychwyn o fewn 5 mlynedd o dyddaid i ganiatad newydd neu o fewn 2 flynedd i ganiatau'r olaf o'r materion wrth gefn, pa ru'n bynnag yw'r olaf ar dir yn Lon Ty Hen, Bryngwran - dim sylwadau
16C202 Cais llawn i newid defnydd capel i 2 annedd sydd yn cynnwys balconi yn Capel Salem, Bryngwran - bydd Cyng R G Parry yn gofyn i'r Cyngor Sir am cyfarfod ar y safle

GOHEBIAETH YCHWANEGOL

MATERION ARIANNOL
Penderfyniwyd talu:
Rhys Williams (torri gwair) £1494.50
Rhoddion Nadolig £50 yr un: Ysgol Feithrin, Plas Crigyll, Canolfan Dydd Plas Crigyll, Ysgol Bryngwran, Bryngwran Cymunedol, Clwb Peldroed.
Costau y Cadeirydd £268.18

MATERION ERAILL
Cynigodd yr aelodau diolchiadau i Mrs Pat Roberts am gwneud y buffet ar gyfer y cyfarfod heno.
Mae Cyng K Humphreys wedi rhoi coedan Nadolig (tu allan i'r Iorwerth) i'r pentref yn rhad ac am ddim.

LLOFNOD (Cadeirydd) 13Ionawr 2016